# Llinellau Sirol yn eich cymuned

Ymgyrch Genedlaethol

16 – 29 September 2024

CrimeStoppers.



Rydym yn elusen annibynnol sy'n rhoi'r grym i bobl godi eu llais a rhoi stop ar droseddu mewn ffordd hollol ddienw.

Bydd pobl sydd â phryderon a gwybodaeth am droseddu a gweithgarwch anghyfreithlon yn cysylltu â'n tîm, byddwn yn cymryd gwybodaeth am y drosedd, yn cael gwared ar unrhyw wybodaeth adnabyddadwy am yr unigolyn sy'n ei rhoi, a'i throsglwyddo i'r awdurdodau perthnasol er mwyn iddynt gymryd camau priodol.

Mae ein gwasanaeth ar gael dros y ffôn ac ar-lein, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Rydym hefyd yn rhannu cyngor ynghylch sut i ddiogelu'r bobl yr ydych chi'n ymboeni amdanynt rhag troseddu.

Rydym yn gweithio tuag at sicrhau gwlad lle y bydd pawb yn teimlo'n ddiogel, ble bynnag y maent yn byw.

# Cadw cymunedau yn fwy diogel gyda'n gilydd.


Mae Crimestoppers wedi lansio ymgyrch newydd i oresgyn yr arfer lle y mae gangiau troseddol yn camfanteisio ar bobl ifanc ac oedolion agored i niwed trwy gyfrwng Llinellau Sirol.

Mae ein hymgyrch yn cynnwys arwyddion i gadw golwg amdanynt a'r hyn i'w wneud os bydd gan gynulleidfaoedd wybodaeth am weithgarwch Llinellau Sirol posibl yn eu cymunedau.

**Mae Crimestoppers wedi gweld cynnydd o 33% mewn gweithgarwch adrodd am droseddau sy'n gysylltiedig â Llinellau Sirol ar draws y DU.**

Mae degau ar filoedd o adroddiadau sy'n sôn am gyffuriau, camfanteisio, meithrin perthnasoedd amhriodol a phobl agored i niwed, diogelu, a thrais, a gyflwynir heb sôn am Linellau Sirol, wedi bod yn gysylltiedig â gweithgarwch troseddol gangiau troseddu cyfundrefnol sy'n ymwneud â Llinellau Sirol yn y DU.

Anogir y cyhoedd i adrodd am unrhyw bryderon neu weithgarwch amheus i Crimestoppers, mewn ffordd hollol ddienw.




*Cydnabyddiaeth map, Esri: Map dotiau yn dangos yr adroddiadau a gafodd Crimestoppers, yr oeddent yn gwneud cyfeiriad penodol at Linellau Sirol, rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2023.*

# Cadw cymunedau yn fwy diogel gyda'n gilydd.

Nod yr ymgyrch yw creu ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r dair elfen ganlynol:

- Diffinio Llinellau Sirol a'i droseddau cysylltiedig
- Meithrin perthnasoedd amhriodol gyda phobl ifanc a chamfanteisio arnynt
- Arwyddion i gadw golwg amdanynt a sut i roi gwybodaeth i'n helusen

**Mae Llinellau Sirol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio rhwydweithiau delio cyffuriau cyfundrefnol.**

Mae troseddwyr cyfundrefnol difrifol, o ddinasoedd mawr yn aml, yn meithrin perthnasoedd amhriodol gyda phlant ac oedolion agored i niwed, ac yn eu recriwtio, gan dechrau cael cyswllt gyda nhw yn aml trwy ddefnyddio apiau sgwrsio, gemau a rhwydweithiau cymdeithasol.

Cyfeirir at y plant a'r oedolion agored i niwed fel 'rhedwyr' i gludo a gwerthu cyffuriau, arfau ac arian.

Pan fydd rhywun yn ymwneud â gang troseddol, mae'n anodd iddynt ddianc.




# Cadw cymunedau yn fwy diogel gyda'n gilydd.

Mae tudalen lanio yr ymgyrch yn cynnig dealltwriaeth i gynulleidfaoedd o'r ffordd y mae gangiau troseddu cyfundrefnol yn gweithredu Llinellau Sirol, y broses o feithrin perthynas amhriodol a recriwtio plant ac oedolion agored i niwed, yr amgylchiadau y bydd dioddefwyr ynddynt yn aml, wedi'u dal ac yn cael eu bygwth, a manylion arfer “cogio”.

Amlinellir arwyddion i gadw golwg amdanynt a galwadau i weithredu er mwyn i gynulleidfaoedd roi gwybodaeth am droseddau neu'r troseddwyr sy'n ymwneud â hyn i'n helusen:

- Hollol ddienw
- dros y ffôn neu ar-lein
- 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn
- mewn dros 150 iaith.

Yn ogystal, mae'r dudalen lanio yn atgyfeirio dioddefwyr i sefydliadau sy'n cynorthwyo dioddefwyr yn uniongyrchol, ynghyd â gwasanaethau eraill sy'n cynnig cyngor pellach a chymorth heb farnu i bobl ifanc a'u teuluoedd.



# Sut y gallwch chi ein cynorthwyo ni.

Rydym wedi datblygu cyfres o negeseuon ac asedau cyfryngau cymdeithasol y gallwch chi eu lawrlwytho a'u rhannu gyda'ch rhwydwaith. Cliciwch isod i lawrlwytho ein negeseuon templed a'n hamserlen cyfryngau cymdeithasol.


- 3 carwsél cymdeithasol ar gyfer y cyhoedd
- 5 deunydd llonydd cymdeithasol ar gyfer y cyhoedd
- Amserlen negeseuon cymdeithasol

**Cliciwch i weld a lawrlwytho**

Neu, dilynwch ni a rhannwch ddeunydd ein hymgyrch ar:
LinkedIn – Facebook – Twitter – Instagram
er mwyn ein helpu i ehangu negeseuon ein hymgyrch i gynulleidfaoedd newydd.

Mae tudalen lanio yr ymgyrch yma:
https://crimestoppers-uk.org/keeping-safe/community-family/county-lines

I ddysgu mwy am ein hymgyrch, cysylltwch â:
brand@crimestoppers-uk.org



CrimeStoppers.

Chwalu mur tawelwch er 1988.